BOROUGH THEATRE
ABERGAVENNY

IONAWR – MAWRTH

GWANWYN 2019

Swyddfa Docynnau

01873 850805

ARCHEBU AR-LEIN:

boroughtheatreabergavenny.co.uk

Theatr y Borough. Stryd Groes,
Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD

croeso

Cadw mewn cysylltiad

Edrychwch ar y wefan
boroughtheatre
abergavenny.co.uk

Ymuno yn y sgwrs
@YFenniBorough

Borough
Theatre-Abergavenny

Gallwch gael mwy o wybodaeth am sioeau - gweld pytiau YouTube, gwrando ar gerddoriaeth, darllen adolygiadau, dewis eich seddau ac archebu eich tocynnau ar-lein. Gallwch hefyd ymuno â'n rhestr bostio electronig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau yn Theatr Borough.

BWYD YN YR ANGEL CYN MYND I'R THEATR

Mae Gwesty'r Angel yn awr yn cynnig ei fwydlen à la carte helaeth yn gynnar felly mae mwy o ddewis ac amrediad prisiau. Mae bwyty'r gwesty, The Oak Room, yn agor am 5.30pm cyn rhai sioeau. I gadw bwrdd ffoniwch **01873 857121** neu archebu ar-lein **www.angelabergavenny.com**
Gwesty'r Angel, 15 Stryd Groes, Y Fenni



Sut i ddod o hyd i ni

Mae Theatr Borough yn Stryd Groes yng nghanol y Fenni yn ymyl y farchnad ganolog. Mae arwyddion i ddigonedd o feysydd parcio am ddim gerllaw.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae'r orsaf bysiau a'r orsaf reilffordd o fewn deg munud ar droed o'r theatr.

nationalrail.co.uk
stagecoachbus.com

Design: savageandgray.co.uk 7199-18

Croeso gan Reolwr y Theatr

Rwy'n falch iawn i gyflwyno ein tymor gwanwyn fel Rheolwr newydd Theatr y Borough, y Fenni.

Gwnaeth yr hoffter, cefnogaeth a brwdfrydedd ar gyfer y theatr hyfryd yma argraff fawr arnaf ers i mi ddechrau ym mis Medi a fedrwn i ddim edrych ymlaen fwy at ei arwain i'r hyn a gredaf fydd yn ddyfodol llewyrchus a chyffrous ar ôl cyfnod heriol i'r lleoliad.

Mae'r theatr yn awr yn eiddo Cyngor Sir Fynwy ac yn cael ei reoli a'i ariannu ganddynt sydd, gan gweithio gyda rhanddeiliaid y theatr, yn bwriadu i'r Borough fod yn lleoliad creadigol a chyffrous, gyda ffocws ar y gymuned a gaiff ei redeg i'r safonau proffesiynol uchaf. Rydym yn paratoi cynlluniau ar gyfer adnewyddu'r 'seddi hoff' a chael gwedd newydd ar y gofod dros yr haf. Mae llawer o waith i wirioneddol gyflawni ein potensial ond gobeithiaf y byddwch yn mwynhau dod gyda ni ar y daith a pharhau i fwynhau sioeau gwych yn Theatr y Borough, y Fenni.

Dave Baxter
Reolwr y Theatr

Dydd Gwener 11 Ionawr 7pm

Welsh Wrestling

Bydd prif sêr Reslo Cymru yn eich synnu a'ch rhyfeddu yn y wledd hon o reslo! Dewch i gymeradwyo'r cryts da, bwio'r cryts drwg a gwneud cymaint o sŵn ag sydd modd yn y digwyddiad dros ben llestri yma i'r holl deulu ei fwynhau.

£12 (plentyn £9) Tocyn Teulu £35

Dydd Iau 17 Ionawr 7:30pm

CYNGERDD CLASUROL

LLŶR WILLIAMS Piano

Yn o'r pianyddion uchaf ei fri ym Mhrydain, mae Llŷr Williams yn dychwelyd i Theatr y Borough.

Mae uchafbwyntiau 2018-19 yn cynnwys parhad ymchwiliad 5-cyngerdd yng Nghaerdydd o waith diweddar Schubert, gwahoddiadau i ddychwelyd i Neuadd Wigmore a'r Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol, cyngerdd agoriadol Cyfres Piano Ryngwladol Canolfan Southbank ac ymddangosiad cyntaf Williams yng Nghanada yn Salle Bourgie ym Montreal.

Rhaglen

CHOPIN	Waltz yng nghywair A lleddf fwyaf op.34 rhif 1
CHOPIN	Dau Mazurka Op.59 ac Op 63
CHOPIN	Barcarolle, op.60
GRIEG	Darnau Telynegol
FAURE	Barcarolle Rhif A No.4 yng nghywair A-lleddf fwyaf, op.44
FAURE	Nocturne Rhif 1 yng nghysair E-lleddf leiaf, op.33 rhif 1
LISZT	Concert Étude "Un sospiro"i
LISZT	Transcendental Études 'Harmonies du soir' & 'Appassionata'

£15 (consesiynau £13) Myfyrwyr £7.50

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Gwener 18 Ionawr 7:30pm

THEATRE AD HOC

The Vicar of Dibley

Mae Theatre Adhoc (*Blackadder Goes Forth*) yn dathlu popeth yn ymwneud â Dibley yn cynnwys llawer o gymeriadau adnabyddus ac annwyl y sioe deledu boblogaidd.

Mae Hugo ac Alice yn dychwelyd o'u mis mêl ac Alice yn canfod ei bod yn magu pwysau, ac yn troi at Geraldine am gyngor.

Mae'r Ficer yn cael sylw nad yw'n ei ymofyn, caiff cyfrinachau eu datgelu ac mae sioe i'w chynhyrchu!! Beth allai fynd o'i le? Beth yn wir?!

£9 Cynhyrchiad Amatur H

Dydd Gwener 25 Ionawr 7:30pm

The Best of WHAM!

Mewn dim ond pedair blynedd gwerthodd WHAM! fwy na 28 miliwn o recordiau, gan fod ar frig y siartiau gyda thri albwm, pedair sengl rhif un ac un ar ddeg record yn y deg uchaf. Roeddent yn rhan o gyngerdd Live Aid 1985 a'r grŵp pop cyntaf o'r gorllewin i erioed deithio yn Tseinia. Ni ellir gorbwysleisio eu heffaith a'u dylanwad ar yr 80au a cherddoriaeth heddiw.

Mae Sioe Goreuon WHAM! yn cynnwys yr holl ganeuon hynny, ychydig o ffefrynnau ochr B ac un neu ddwy o ganeuon bonws cynnar George Michael.

Teyrnged hwyliog ac egniol i ffefrynnau pop yr 80au.

£22.50

Dydd Iau 31 Ionawr - Dydd Sadwrn 2 Chwefror 7pm

ABERGAVENNY THEATRE GROUP

Schiller's Mary Stuart

Mewn addasiad newydd gan Peter Oswald, mae "Mary Stuart" gan Schiller yn gosod Mary Brenhines yr Alban yn erbyn ei chyfnither a'i chystadleuydd y Frenhines Elisabeth I. Wedi'i osod mewn cefndir modern, mae hyn yn stori o gynllwyn, teyrngarwch hyd at ddagrau a bradychiad chwerw. Darn fydd yn apelio at rai sy'n hoff o ddrama, hanes, a throi a throelli.

£9.50 (consesiynau £8.50) Cynhyrchiad amatur H

Dydd Iau 7 Chwefror 7:30pm

The Temperance Seven

Wedi'i ffurfio yn 1955, mae'r band saith darn yma'n chwarae cerddoriaeth boblogaidd a jazz o'r 1920s a'r 30au. Mae ganddynt gysylltiadau gyda rhai fel Spike Milligan, Terry Jones a George Martin ac wedi recordio gyda Peter Sellars yn canu. Mae eu cerddoriaeth wych a'u hodrwydd hynod yn parhau hyd heddiw.

£15 (consesiynau £13)

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Sadwrn 9 Chwefror 7:30pm

CYNGERDD CLASUROL

ELLA RUNDLE, Soddgrwth
JOHN PAUL EKINS, Piano

Mae Ella Rundle wedi ennill gwobrau am ganu'r soddgrwth ac mae galw mawr amdani fel cerddor unigol, siambr a cherddorfa. Mae galw mawr am John Paul Ekins yntau fel datgeinydd, unawdydd concerto a cherddor siambr. Rhyngddynt, mae'r cerddorion wedi ymddangos ar y radio a'r teledu ac wedi perfformio'n helaeth yn Ewrop mewn lleoliadau o fri megis y Purcell Room, Royal Albert Hall, Snape Maltings a Wigmore Hall.

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

SCHUMANN	Adagio ac Allegro Op.70
MENDELSSOHN	Sonata Rhif 2 i'r Soddgrwth mewn D Op. 58
CHOPIN	Cyflwyniad a Polonaise Brillante, Op.3
BRAHMS	Sonata Rhif 2 i'r Soddgrwth mewn F Op.99

£15 (consesiynau £13) Myfyrwyr £7.50

Dydd Llun 25 – Dydd Iau 28 Chwefror7pm
Dydd Gwener 1 Mawrth 2:30pm a 7pm
Dydd Sadwrn 2 Mawrth 1:30pm a 6pm

ABERGAVENNY PANTOMIME COMPANY

Treasure Island

Gwledd Hanner Tymor i'r Teulu Cyfan.

Pawb ati gyda'i gilydd ar gyfer y fordaith pantomeim draddodiadol i chwilio am drysor cudd ond dyma rybudd fod morladron dan arweiniad y drwg-enwog Long John Silver hefyd yn awyddus i gael eu dwylo barus ar yr aur. Ymunwch yn yr hwyl yn ystod wythnos hanner tymor a mynd i hwylio gyda dim ond hen fap trysor i'ch arwain.

Llun a Mawrth £5.50 Mercher a Iau £6.50 Gwener a Sadwrn £7.50
Plant a Phensiynwyr 50c i ffwrdd. Disgownt Grŵp (20 neu fwy): 10% I FFWRDD (Llun a Mawrth yn unig).
Digwyddiad Hur Cynhyrchiad Amatur

H

Dydd Mawrth 5 Mawrth 7:30pm

St David's Day Concert

Dathliad gyda Chôr Meibion Blaenafon a pherfformwyr lleol.

Cyflwynir gan A4B i gefnogi Theatr y Borough.

£8 (consesiynau £7)

H

Dydd Iau 7 Mawrth i Dydd Sadwrn 9 Mawrth 7.30pm

CONCEPT PLAYERS

My Fair Lady

Ymunwch â'r Concept Players wrth iddynt ddychwelyd gyda'r clasur cerddorol digyfnewid yma. Dilynwch stori'r cocni Eliza Doolittle wrth iddi gael ei thrawsnewid gan Henry Higgins yn foneddiges. Mae'r sioe gerdd Lerner a Loewe hon yn llawn dop o ganeuon bythgofiadwy fel *Get Me To The Church On Time*, *Wouldn't It Be Loverly*, *With A Little Bit Of Luck*, *I Could Have Danced All Night* and, of course, *On The Street Where You Live*.

£12.00 Cynhyrchiad Amatur

H

Dydd Mercher 13 Mawrth 7:30pm

VAMOS THEATRE

A Brave Face

Ei frwydr anoddaf yw'r un nôl adre.

Mae Vamos Theatre wedi ennill gwobrau ac maent yn dod â'u harddull nodweddiadol, di-eiriau, masg llawn i stori sydd angen ei dweud. Wedi'i gosod yn Afghanistan yn 2009, mae *A Brave Face* yn ymchwilio straen ôl-drawmatig, anafiadau cudd rhyfel, a'r effaith y gall hynny ei gael ar hyd yn oed y teuluoedd agosaf. Gan ddweud stori ddiddorol, ystwythder corfforol a dirnadaeth emosiynol, mae *A Brace Face* yn siarad gyda chynulleidfaoedd ar draws ffiniau.

Canllaw Oedran 12+

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Gwener 15 Mawrth 7:30pm

A4 Brass Quartet

Mae'r A4 Brass Quartet yn cynnwys prif chwaraewyr rhai o brif fandiau pres Prydain, yn cynnwys Grimethorpe Colliery, Brighouse & Rastrick a Foden's. Gyda llwythi o feistrolaeth dechnegol (Brass Band World), daw'r pedwar cerddor rhyfeddol hyn ynghyd i berfformio gweithiau telynegol ac egniol, gan roi dehongliad neilltuol a newydd i gerddoriaeth siambr.

Rhaglen yn cynnwys:

ROSSINI	Agorawd Barber of Seville
STRAUSS	Cerddoriaeth Gŵyl ar gyfer Vienna
DEBUSSY	Arabesque
BRUCKNER	Locus Iste
BRAMWELL TOVEY	Caneuon stryd ar gyfer offerynnau pres

Tillett Trust
Supporting tomorrow's classical music stars today

£15 (consesiynau £13) Myfyrwyr £7.50

Dydd Gwener 22 a
Dydd Sadwrn 23 Mawrth 7:30pm

Max Boyce

Bu Max Boyce yn didannu pobl ym mhob rhan o'r byd am fwy na 40 mlynedd gyda'i allu i baentio lluniau mewn gair a chân. Nid yw perfformiadau byw Max angen unrhyw gyflwyniad; mae ymateb y gynulleidfa a'i cymeradwyaeth yn siarad drostynt eu hunain.

GWERTHWYD POB TOCYN

£27.50

Dydd Llun 25 Mawrth 7:30pm

A THEATR GENEDLAETHOL CYMRU PRODUCTION IN ASSOCIATION WITH THE NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES, MAS AR Y MAES AND OOMFF SUPPORTED BY THEATR CLWYD

Merched Caerdydd / Nos Sadwrn o Hyd

Merched Caerdydd (Cardiff Girls)

gan Catrin Dafydd

Caerdydd yw cartref Cariad, Liberty ac Awen. Er eu bod nhw'n troedio llwybrau gwahanol iawn i'w gilydd, mae ganddyn nhw fwy yn gyffredin na'u dinas. Dyma dair o ferched ifanc, disglair ac, efallai, annisgwyl y Gymru gyfoes sy'n ceisio gwneud synnwyr o'u bywydau blêr. Merched sy'n ymrafael â'u gorffennol wrth geisio llywio'u dyfodol. Ond a fydd newid yn bosib? Neu a ydi eu ffawd eisoes wedi'i benderfynu?

Nos Sadwrn o Hyd (Saturday Night Forever)

gan Roger Williams

Wedi i Take That chwalu perthynas Lee a Matthew mewn clwb nos yn y brifddinas, mae Lee yn cymryd camau cynnar, melys ar lwybr carwriaeth newydd. Am gyfnod byr mae bywyd yn fêl, ond ar ôl bob nos Sadwrn daw realiti oer bore Sul. Ac fel mae Lee'n darganfod, does dim byd yn para am byth.

Mynediad i'r di-Gymraeg drwy gyfrwng ap Sibrwd.

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Mawrth 26 Mawrth 7:30pm

Blue Rose Code

Mae'r canwr/awdur caneuono gwobrwyol Ross Wilson yn cyfuno canu gwerin, jazz, enaid a pop; mae ei ei eclectigaeth wedi dod yn nodwedd o sain y Blue Rose Code ac arwain at ei gymharu gyda John Martyn, Van Morrison a Tom Waits.

"For those of you that long for Van Morrison to return to his days of Caledonian Soul or miss the late John Martyn, just switch your affections to Ross Wilson" ****** Scottish Daily Express**



£15 (consesiynau £13)

Dydd Iau 28 Mawrth 7:30pm

TAKING FLIGHT

Peeling

Mae cynhyrchiad epig, ôl -fodern o The Trojan Women: Then and Now yn mynd rhag-ddo. Yn y cefn, yn y tywyllwch, ar y llwyfan mae'r Corws: tair perfformwraig sydd bron yn methu symud oherwydd eu gwisgoedd aml-haenog hollol hurt. Treuliant y rhan fwyaf o'r cynhyrchiad yn aros i ddweud ychydig linellau fel bod y rheolwyr yn teimlo eu bod wedi gwneud eu pwt dros "gynhwysiant cymdeithasol". Maent yn dweud clecs, celwyddau ac yn heclo wrth iddynt aros. Yn raddol daw gwirioneddau dinistriol i'r amlwg sy'n plicio ymaith eu haenau o rith, ynghyd â'r haenau o'u dillad. Mae drama newydd gomic tywyll Kaite O'Reilly am y dewisiadau a wnaiff menywod a'r pethau a guddiant.

"… Kaite O'Reilly's dense, dangerous play ... has all the deceptive simplicity and hopeful despair of a Samuel Beckett play. As in Beckett, the characters are tragic and comic, heartbreaking and ridiculous. as in Beckett the joke is ultimately on us. This is a major piece of theatre…"
The Guardian, Lyn Gardner, 2002

£14 (consesiynau £12) myfyrwyr £7

Gwirfoddoli yn Theatr y Borough, y Fenni

Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli?

Ydych chi'n edrych am brofiad yn gweithio gyda'r cyhoedd ac yn helpu pobl i gael noswaith wych mas?

Oes gennych chi amser sbâr i ddod yn wirfoddolodd Blaen Tŷ?

Mae cynulleidfaoedd yn Theatr y Borough, y Fenni yn derbyn gofal cwsmeriaid, arweiniad a chymorth gan dîm gwirfoddol o staff perfformiad ymroddedig a brwdfrydig a gaiff eu harwain a'u cefnogi gan ein goruchwylwyr perfformiad proffesiynol a thîm rheoli'r Borough. Mae cwsmeriaid ac artistiaid ymweld fel ei gilydd wedi'n canmol am gyfeillgarwch ac effeithlonrwydd y tîm wrth galon Theatr y Borough.

I gael mwy o wybodaeth neu os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â ni yn boxofficeboroughtheatre@monmouthshire.gov.uk

YN DOD YN FUAN

Dydd Mercher 3 Ebriil 7:30pm

DYAD PRODUCTIONS

The Time Machine

Gan y sawl a grëodd *Jane Eyre: An Autobiography*, *Dalloway*, *Female Gothic*, *Austen's Women* a *Christmas Gothic*.

Dehongliad gwych a mesmeiriol o stori glasurol HG Wells.

£14 (consesiynaus £12) myfyrwyr £7

Dydd Gwener 5 Ebrill 7:30pm

The History of Queen gyda Magic

Teyrnged i'r band roc bythgofiadwy bydd Magic yn eich cludo'n ôl i glam y 70au a hud a lledrith y 80au.

£22

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Talebau Rhodd Theatr Y Borough

Caiff y talebau rhodd eu cyflwyno'n ddeniadol ac maent yn gwneud anrheg perffaith. Ar gael mewn symiau o £5, £10 a £20 ac ar werth o'r swyddfa docynnau.

CYNLLUN SEDDI THEATR BOROUGH



GWYBODAETH ARCHEBU

ARCHEBU AR-LEIN

Edrychwch ar y wefan ac archebu ar-lein
www.boroughtheatre abergavenny.co.uk

Noder: Codir ffi archebu o £1 ar bob gwerthiant.

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor Mawrth - Sadwrn 9.30am - 3pm a 1½ awr cyn pob perfformiad.

YN BERSONOL

Ewch draw i'n Swyddfa Docynnau sydd yn y fynedfa i'r theatr ar dop Stryd Groes.

DRWY FFONIO 01873 850805

Gallwch dalu ar unwaith yn defnyddio pob prif gerdyn credyd a debyd. Gellir anfon tocynnau yn syth i'ch cartref am ffi 80c postio a thrin, neu ei cadw i chi yn y Swyddfa Docynnau.

Cedwir archebion am 8 diwrnod.

Caiff archebion na chafodd eu casglu eu rhyddhau i'w hailwerthu 15 munud cyn y perfformiad.

DRWY E-BOST:

Anfonwch eich archeb gyda manylion cyswllt ffôn
Boxofficeboroughtheatre@monmouthshire.gov.uk

DYCHWELYD TOCYNNAU

Gellir cyfnewid tocynnau nad oes eu heisiau am daleb credyd a rhaid eu dychwelyd o leiaf 24 awr cyn y perfformiad. Nid yw'r cyfleuster hwn ar gael ar gyfer digwyddiadau lle cafodd y theatr ei logi.

RDDC

Yn unol â newidiadau yn y gyfraith diogelu data, rydym wedi diweddaru ein Polisi Preifatrwydd i gynnwys gwybodaeth bellach ar sut mae eich data yn cael ei ddefnyddio ar draws ein holl sianeli marchnata. Gallwch chi adolygu'r polisi hwn ar ein gwefan www.monmouthshire.gov.uk neu cysylltwch â'n swyddfa docynnau er gwybodaeth.

HYNT

Rydym yn aelod o Hynt - cynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda rhwydwaith o theatrau a chanolfannau celf ar draws Cymru. Mae gan holl ddeiliaid cardiau Hynt hawl i docyn rhad ac am ddim i'w cydymaith, gofalwr neu gymhorthydd personol. Mwy o wybodaeth ar Hynt a ffurflen cais i'w lawrlwytho o wefan Hynt
www.hynt.co.uk

HYGYRCHEDD

Hysbyswch staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch yn archebu os oes gennych unrhyw ofynion arbennig a byddwn yn hapus i helpu.

Mae mynediad i'r theatr drwy lifft yn Neuadd y Farchnad. Mae 4 lle cadair olwyn yn y neuadd ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau a system cymorth clyw is-goch.

Mae gennym gyfleusterau toiled ar gyfer pobl anabl yn agos at y neuadd. Nid yw'r foyer yn hygyrch i rai mewn cadair olwyn, ond mae gwasanaeth hambwrdd lluniaeth ar gael gan ein stiwardiaid.

Mae tocyn am ddim ar gael ar gyfer cymhorthydd sy'n mynd gyda pherson anabl i'r theatr. Ni chodir tâl mynediad ar gyfer plant dan 3 oed, heblaw lle cafodd y theatr ei logi.

NODER

- Mae'n rhaid i blant sy'n mynychu perfformiadau yn y theatr fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.
- Ni chaniateir defnyddio camerâu neu offer recordio yn y neuadd.
- Dim ysmygu mewn unrhyw ran o'r theatr.

Arbed Arian

Mae prisiau rhatach ar gael mewn rhai digwyddiadau ar gyfer plant, myfyrwyr, pobl wedi cofrestru'n ddi-waith, rhai ar gymorth incwm, pobl dros 60 a phobl anabl.

Archebion Grŵp

Dewch â grŵp ac arbed £££oedd! Prisiau rhatach ar gael mewn llawer o berfformiadau i grwpiau o 10 neu fwy - holwch y Swyddfa Docynnau am fanylion.

I logi'r Theatr

ar gyfer sioeau a nodwyd gyda H cafodd y theatr ei logi. Mae Theatr Borough ar gael i'w logi ar gyfer grwpiau perfformiad amatur lleol ac i sefydliadau yn Sir Fynwy ar gyfer digwyddiadau codi arian.

DYDDIADUR DIGWYDDIAD GWANWYN / 2019

IONAWR		
Gwe 11	**Welsh Wrestling**	7pm
Iau 17	**Llyr Williams - Piano**	7:30pm
Gwe 18	**The Vicar of Dibley**	7:30pm
Gwe 25	**The Best of WHAM!**	7:30pm
Iau 31 – Sad 2 Chwefror	**Schiller's Mary Stuart**	7pm
CHWEFROR		
Iau 7	**The Temperance Seven**	7:30pm
Sad 9	**Ella Rundle, Cello John Paul Ekins, Piano**	7:30pm
Llun 25 – Iau 28 Chwefror	**Treasure Island**	7pm
MAWRTH		
Gwe 1	**Treasure Island**	2.30pm 7pm
Sad 2	**Treasure Island**	1:30pm 6pm
Maw 5	**St David's Day Concert**	7:30pm
Iau 7 - Sad 9	**My Fair Lady**	7:30pm
Mer 13	**A Brave Face**	7:30pm
Gwe 15	**A4 Brass Quartet**	7:30pm
Gwe 22 & Sad 23	**Max Boyce**	7:30pm
Llun 25	**Merched Caerdydd / Nos Sadwrn o Hyd**	7:30pm
Maw 26	**Blue Rose Code**	7:30pm
Iau 28	**Peeling**	7:30pm

Caiff Theatr y Borough y Fenni ei ariannu gan Gyngor Sir Fynwy a'i gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Rhif Cofrestru TAW. 655543619 Aelod o Creu Cymru a ITC. Mae'r holl fanylion yn gywir adeg cyhoeddi

Theatr Y Borough, Stryd Groes, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD

monmouthshire sir fynwy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Creu Cymru

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY